**CYNLLUN ARAFU TRAFFIG CYNGOR BRO MORGANNWG,
DRYDEN ROAD (RHAN), PENARTH
TRAFFIG ARAFU SCHEME 2022**

Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 90A a C Deddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd), y darpariaethau yn Rheoliadau Priffyrdd (Twmpathau Ffordd) 1999 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig adeiladu mesurau arafu traffig fel y nodir yn Atodlen yr Hysbysiad hwn.

Gellir gweld manylion llawn y cynigion, gan gynnwys copi o'r Gorchymyn Arfaethedig a Chynlluniau Rhif T/22/52/MS ar wefan y Cyngor yn www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/legal_notices/Legal-Notices.aspx ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a allai fod gennych i'r cynnig hwn i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf. IF949) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk erbyn **dydd Gwener 11 Tachwedd 2022** ac mae rhaid cynnwys eich rhesymau dros wrthwynebu.

Dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) 1985 rhoddir gwybod i bobl sy'n gwrthwynebu'r mesurau arafu traffig arfaethedig fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i wneud unrhyw sylwadau a dderbynnir mewn ymateb i'r cynnig ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt.

**ATODLEN**

Cynnig mesurau arafu traffig yn Dryden Road, Penarth fel y nodir isod:

| Mesur Arafu Traffig | Lleoliad |
|---|---|
| Culhau'r ffordd a chynnwys croesfan nas rheolir, gyda rhwystr ymwthiol ar naill ochr y lôn gerbydau, a fydd yn lleihau'r lled o tua 5.0 metr i 3.5 metr. | Tua 20 metr tua'r dwyrain o'r gyffordd â Tennyson Road fydd canol hyn. |
| Gardd law, rhwystr ymwthiol i bob olwg, gan leihau lled y lôn gerbydau i tua 3.1 metr, gyda'r dimensiynau bras 50 metr x 1.4 metr. | Tua 113 metr tua'r dwyrain a'r de o'r gyffordd â Tennyson Road fydd canol hyn. |
| Gardd law, rhwystr ymwthiol i bob olwg, gan leihau lled y lôn gerbydau i tua 3.1 metr, gyda'r dimensiynau bras 12.5 metr x 1.4 metr. | Tua 151 metr tua'r dwyrain a'r de o'r gyffordd â Tennyson Road fydd canol hyn. |
| Gardd law, rhwystr ymwthiol i bob olwg, gan leihau lled y lôn gerbydau i tua 3.0 metr, gyda'r dimensiynau bras 6.0 metr x 1.4 metr. | Tua 171 metr tua'r dwyrain a'r de o'r gyffordd â Tennyson Road fydd canol hyn. |

Dyddiedig 20 Hydref 2022
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Yr Alpau, Quarry Road, Gwenfô CF5 6AA.